**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1335
Ein cyf JH-/00391/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Mai 2023

Anwyl Jack,

Diolch am godi'r mater pwysig hwn sy'n un cymhleth ac, yn nhermau bancio a mynediad at arian parod, yn fater nad yw wedi'i ddatganoli. Mae cau banciau yn gwneud y broblem yn waeth, sy'n creu heriau gwirioneddol i lawer o fanwerthwyr, yn enwedig busnesau llai, pan fo angen talu arian parod i'w cyfrifon yn lleol.

Lle bo modd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i fusnesau dderbyn arian parod. Fodd bynnag, nid oes gennym lawer o bwerau yn y maes hwn, a mater i'r busnesau yn llwyr yw penderfynu p'un a ydynt am wneud ar sail ystyriaethau masnachol.

Yn ddiweddar, tynnwyd sylw Gweinidog yr Economi at y cwestiwn hwn, a bydd yn ei drafod gyda phartneriaid cymdeithasol, rhanddeiliaid/grwpiau sy'n cynrychioli busnesau, a'r sector manwerthu a lletygarwch cysylltiedig, i'w hannog i gadw eu systemau arian parod er mwyn gofalu nad yw grwpiau sy'n agored i anawsterau fod dan anfantais mewn unrhyw ffordd.

Mae taliadau digidol yn unig, heb opsiwn i dalu ag arian parod yn codi cwestiynau o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn effeithio ar unigolion sy'n derbyn ac yn darparu gwasanaethau yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gallai mynnu taliadau digidol wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae swyddogion yn bwriadu ymchwilio'n fanylach i hyn.

Mae llawer o'r rhai sy'n dibynnu ar arian parod hefyd yn rhai sydd angen cymorth wyneb yn wyneb wrth ddelio â'u cyllid. Yn aml, y rhai mwyaf agored i anawsterau fydd y rhain, gan gynnwys pobl hŷn ac anabl a'r rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rwy’n cydnabod ei bod yn anochel y bydd systemau talu a bancio yn parhau i arloesi, ac mae hynny’n beth da, ond mae angen inni ofalu nad yw datblygiadau digidol yn eithrio rhai grwpiau ymhellach. Bydd hyn yn golygu diogelu gwasanaethau arian parod a phwyso ar y sector bancio i weithredu strategaethau effeithiol i osgoi eithrio digidol.

Rwy’n ymwybodol y bydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn monitro ac yn olrhain i ba raddau y mae modd defnyddio arian parod. Rwyf ar ddeall bod yr Awdurdod wedi dechrau ar y gwaith hwn drwy holi manwerthwyr p’un a fyddent yn gwrthod cwsmeriaid sydd ond yn gallu talu ag arian parod.


O ran mynediad ehangach at arian parod, drwy Fil Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol Llywodraeth y DU, rwyf ar ddeall y bydd yna ddiogelwch statudol i fynediad at arian parod a’r gallu i dalu arian parod i gyfrif. Er y bydd hyn yn mynd rywfaint o ffordd i ddiogelu parhad y defnydd o arian parod, nid yw’r pwerau newydd a ddarperir i’r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn cwmpasu derbyn arian parod.

Mae’r pryderon ynghylch gwahaniaethu yn yr enghreifftiau a godir yn y ddeiseb yn destun gofid imi. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu cymdeithas decach, lle caiff amrywiaeth ei gwerthfawrogi a'i pharchu, lle nad yw pobl yn wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn na rhagfarn, a lle gall pawb gyfrannu, ffynnu a chael cyfle i gyflawni eu potensial.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo’n llawn i gefnogi holl bobl anabl Cymru, ac wedi sefydlu Tasglu Hawliau Pobl Anabl, a fydd yn weithredol tan 2024. Mae’n dwyn ynghyd bobl â phrofiad bywyd, arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru a sefydliadau cynrychioliadol er mwyn nodi'r problemau a'r rhwystrau sy'n effeithio ar fywydau llawer o bobl anabl. Mae’r Tasglu yn gweithio o fewn cwmpas cylch gwaith cyfreithiol Llywodraeth Cymru, ac nid mewn meysydd sy'n dod o dan gyfrifoldebau Llywodraeth y DU yn benodol.

Ym mis Chwefror 2022, nodwyd nifer o ffrydiau gwaith yn feysydd blaenoriaeth i’r Tasglu, gan gynnwys Mynediad at Wasanaethau (gan gynnwys Cyfathrebu a Thechnoleg). Rwy’n argymell bod Mencap Cymru yn ymgysylltu â’r grŵp hwn er mwyn i’r mater gael ei fwydo i’r fforymau priodol.

Yn gywyr,



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**